# Nant Cae-Dudwg – Uwchraddio Cilfach y Cwlfert (2024)

**Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb i 11 eiddo preswyl, 3 eiddo masnachol ac asedau priffyrdd yn ardal Cilfynydd.**

| Crynodeb y Cynllun | |
|---|---|
| Lleoliad Strategol Perygl Llifogydd | Pen Isaf Cwm Taf |
| Lleoliad | Cilfynydd |
| Eiddo sy'n elwa | 11 eiddo preswyl a 3 eiddo masnachol |
| Math o Gynllun | Uwchraddio Cilfach y Cwlfert |
| Cost | £44,030 |
| Contractwr | DT Contracting |
| Statws | Wedi'i gwblhau |
| Dyddiad cwblhau'r cynllun | Ionawr 2024 |
| Ffrwd Ariannu | Cynlluniau FCERM ar Raddfa Fach Llywodraeth Cymru |



*Uwchraddio Cilfach y Cwlfert – Cynllun Lliniaru Llifogydd Nant Cae Dudwg 2024*

## Cefndir y Cynllun

Mae materion llifogydd hanesyddol sy'n gysylltiedig â chwrs dŵr cyffredin Nant Cae-Dudwg wedi bod yn destun nifer o ddigwyddiadau llifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y digwyddiadau mwyaf arwyddocaol oedd llifogydd ar 15 a 16 Chwefror 2020 yn dilyn Storm Dennis, lle bu llifogydd mewn 8 cartref hyd at ddyfnderoedd o 1.5 metr i 1.8 metr, yn gysylltiedig â'r cwrs dŵr yn gorlifo.

Mae Cilfynydd wedi'i nodi'n ardal sydd â pherygl llifogydd dŵr wyneb uchel a chyrsiau dŵr cyffredin, yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae cymuned Cilfynydd hefyd wedi'i osod yn safle 128 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR), a ddatblygwyd gan CNC i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan.

## Disgrifiad o'r Cynllun

Nod y prosiect oedd **gwella cydnerthedd y system ddraenio bresennol yn Nant Cae-Dudwg i ddelio â chyfaint uwch o ddŵr**, yn enwedig ar adegau o law trwm fel y rhai a gafwyd yn ystod Storm Dennis ym mis Chwefror 2020. Roedd y gwaith yma'n ychwanegol at Gynllun Lliniaru Llifogydd Nant Cae-Dudwg a gwblhawyd yn 2014 a'r gwaith amddiffyn rhag erydu a gafodd ei gwblhau yn 2022.

Cyflawnodd y cynllun gilfach cwlfert gwell yng nghwrs dŵr Nant Cae-Dudwg sy'n canolbwyntio ar reoli malurion trwy **wella sgrin malurion**, **gosod rhwydwaith gorlif newydd** yn ogystal â **llwybr trawsgludo newydd dros dir o fewn ardal y fewnfa**. Os bydd malurion yn cronni ar gril y wal flaen, mae gan y dŵr lwybr arall i mewn i'r rhwydwaith i lawr yr afon, gan leihau'r risg o orlifo ac achosi llifogydd i eiddo.

Nod y gwelliannau yma yw gwella cydnerthedd y system ddraenio bresennol i ddelio â chyfeintiau uwch o ddŵr, yn enwedig ar adegau o law trwm, drwy ddarparu llwybr amgen i ddŵr fynd i mewn i'r rhwydwaith draenio os bydd malurion yn cronni ar wyneb y gril gan achos rhwystr.

## Buddion y Cynllun

Lleihau perygl llifogydd ar gyfer **14 eiddo**

**Lleihau'r perygl** y bydd malurion yn mynd i mewn i'r rhwydwaith draenio ac achosi rhwystrau

Darparu **rhwydwaith gorlif a llwybr dŵr llifogydd** amgen os bydd rhwstr yn y geuffos

**Gwella gwytnwch y gilfach** a'r rhwydwaith cwlfert i ddelio â mwy o ddŵr

**Hwyluswyd gwelliannau** i sgrin malurion fewnfa'r cwlfert

**Trwsio a gwelliannau** amddiffyn rhag erydu